

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig: Codi adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun a newid statws cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o 1 Medi 2021.

1. Pwrpas yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol 011/2018. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref 2018 a 31 Rhagfyr 2018 gyda'r holl randdeiliaid a'r partïon â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd:

www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx

- Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun, Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun, Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Rhieni, gwarcheidwaid / cynhalwyr (gofalwyr) ac aelodau o staff Ysgol Gynradd Hirwaun, Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
- Cyrff llywodraethu eraill yr ysgolion cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau'r Cynulliad ar gyfer etholaethau Rhondda Cynon Taf ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol etholaethau Rhondda Cynon Taf
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Consortïwm Canolbarth y De – Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
- Cymdeithas Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Cymunedau am Waith a Mwy - Rhaglen gymorth i gael gwaith
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
- Comisiynydd y Gymraeg
- Menter iaith
- Mudiad Meithrin
- Awdurdodau Lleol Cyfagos

Cafodd copïau eu hanfon hefyd i'r holl awdurdodau lleol sy'n rhannu ffin â Rhondda Cynon Taf.

3. Y Cynnig

Y cynnig yw disodli adeiladau presennol Ysgol Gynradd Hirwaun ag adeiladau newydd yn unol â safon rhaglen 21^{ain} Ganrif ar safle'r ysgol bresennol. Byddai lle i 390 o ddisgyblion (ynghyd â meithrin) a Saesneg fyddai'r cyfrwng iaith. Yn ogystal â hynny, newid categori iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fod yn ysgol y ddwy iaith i ysgol gynradd gymuned Gymraeg gyda lle ar gyfer 231 o ddisgyblion (ynghyd â meithrin), a Chymraeg fyddai'r cyfrwng iaith.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori sydd wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid yn y rhestr drosodd sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copïau papur neu electronig eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Cafodd y cyfarfodydd canlynol eu cynnal hefyd:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser/Dyddiad	Lleoliad
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 4pm	Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyfarfod y Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 4pm	Ysgol Gynradd Hirwaun
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 2.30pm	Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn
Ysgol Gynradd Hirwaun	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau 11 Hydref 2018 / 2.30pm	Ysgol Gynradd Hirwaun
Y ddwy ysgol a'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa ar gyfer rhieni a'r cyhoedd	Dydd Mawrth 27 Tachwedd 2018 / 3pm-6pm	Ysgol Gynradd Hirwaun

Mae'r holl nodiadau a gymerwyd wedi'u hatodi yn Atodiad 2. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

Cynhaliwyd noson agored / arddangosfa yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar 27 Tachwedd 2018. Pwrpas hyn oedd rhoi rhagor o wybodaeth am y cynnig, ateb unrhyw gwestiynau a rhoi'r cyfle i rieni yn benodol ofyn cwestiynau. Roedd swyddogion o'r Gyfadran Addysg a Chynhwysiant, Adran Eiddo'r Cyngor a'r Gyfarwyddiaeth Briffyrdd yn bresennol. Roedd tua 50 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad yma a oedd yn cynnwys llywodraethwyr yr ysgol, disgyblion, rhieni a thrigolion lleol.

Cafodd cyfarfod gyda'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc ei gynnal ar 19 Rhagfyr 2018, lle cafodd y cynigion ymgynghori eu cyflwyno a sylwadau a chwestiynau ar y cynigion eu derbyn, a lle bo'n briodol, rhoddodd y Swyddogion oedd yn bresennol ymatebion. Mae cofnodion o'r cyfarfod yma i'w gweld yn Atodiad 3.

5. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r materion a gafodd eu codi yn y cyfarfodydd sydd wedi'u crybwyll uchod wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd ynghlwm yn Atodiadau 2 a 3. Yn ogystal â hynny yn Atodiad 4, mae crynodebau o'r holiaduron a'r ymatebion ysgrifenedig sydd wedi'u derbyn, ynghyd â'r sylwadau a gafodd eu rhoi ar fwrdd 'Dweud eich dweud' a gafodd ei ddarparu at y diben yma yn y noson agored.

Mae'r holiaduron a'r ymatebion ysgrifenedig yn dangos bod y farn ynglŷn â'r cynigion yn gytbwys. Roedd tua hanner y bobl o blaid y cynigion a thua hanner yn eu herbyn.

Mae'r sylwadau a gafodd eu cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn ogystal â'r adborth llafar yn y sesiwn galw heibio, wedi'u cofnodi isod. Lle roedd nifer o lythyron yn rhoi'r un sylw, neu lle roedd llawer o ymatebwyr yn codi'r un mater yn ystod y broses ymgynghori, rydyn ni wedi nodi un sylw unigol yn y rhan yma o'r adroddiad. Lle bo angen a/neu lle bo'n briodol, mae ein hymatebion wedi cael eu cynnwys:

- **Dydy'r adroddiad ymgynghori ddim yn nodi sawl plentyn sy'n cael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n byw y tu allan i ddalgylch Penderyn.**

Nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gymuned Penderyn (sydd o fewn y dalgylch cyfrwng Cymraeg) yw 89%, felly mae 11% y tu allan i'r dalgylch.

O ran y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymuned Penderyn ac sy'n byw yn nalgylch yr ysgol Saesneg, mae 22 yn gyfrwng Saesneg a 17 yn gyfrwng Cymraeg.

- **Mae Ysgol Penderyn yn ysgol gymuned a dylai fod modd i bob plentyn ei mynychu.**

Os bydd y cynigion yma yn mynd rhagddyn nhw, bydd Penderyn yn parhau i fod ar agor fel ysgol gymuned - fydd hyn ddim yn newid. Y cynnig yw symud y ffrwd Saesneg o'r ysgol a ddim ei chau. Bydd y Cod Derbyn Disgyblion yn cael ei weithredu a fydd yn sicrhau y bydd modd i bob disgybl sy'n byw yn y dalgylch fynychu Ysgol Gymuned Penderyn os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

- **Cafodd pryderon eu codi ynglŷn ag Adroddiad gwael Estyn ar Ysgol Gynradd Hirwaun.**

Ers derbyn eu hadolygiad arolygu ym mis Chwefror 2018, mae Ysgol Gynradd Hirwaun, Consortiwm Canolbarth y De a'r Awdurdod Addysg Lleol, wedi bod yn gweithio'n agos i wella canfyddiadau'r adroddiad yn sylweddol. Mae Cynllun Gweithredu Ôl-arolygu wedi cael ei baratoi sy'n canolbwyntio ar y meysydd hynny sydd angen eu gwella ac yn darparu targedau i sicrhau bod cynnydd cryf mewn perthynas â phob un o'r argymhellion yn adroddiad arolygu Estyn.

Ers i'r Cynllun Gweithredu gael ei roi ar waith, mae Estyn wedi ailymweld â'r ysgol (Gorffennaf 2018) gan adrodd bod 'cynnydd boddhaol' wedi bod sy'n golygu bod yr ysgol erbyn hyn yn y categori "melyn" yn hytrach na'r categori "coch". Mae cydnabyddiaeth bod angen gwella o hyd a bydd y gwaith i gyrraedd y targedau yma yn parhau i fod yn flaenoriaeth fel bydd argymhellion Estyn yn cael eu bodloni. Dyhead yr holl bartïon yw y bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn y categori "gwyrdd" cyn i'r ysgol newydd gael ei hagor.

- **Cafodd pryderon eu codi ynglŷn â symud disgyblion i ysgol newydd ar ganol y cyfnod cynradd.**

Mae proses bontio ystyrlon a llwyddiannus yn rhan annatod o sicrhau bydd disgyblion yn ymgartrefu yn eu hamgylcheddau ysgol newydd heb fawr o amhariad. Bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth a dibryder ac sy'n bosibl ar gyfer y disgyblion.

- **Mae angen adeilad ysgol newydd ar Hirwaun**

- **Mae yna blant sy'n cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd nad oes modd iddyn nhw gael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg yn eu hysgol leol.**

Mae Trefniadaeth Ysgolion a'r drefn ar gyfer derbyn plant yn cael eu gweinyddu yn unol â Chodau Statudol ac yn ofynion o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rydyn ni'n sicrhau bod ein holl weithdrefnau yn dilyn y cod yma sy'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n ymgymryd â 'diwydrwydd dyladwy' fel na fydd

unrhyw blentyn yn cael ei roi o dan anfantais nac yn cael ei drin yn llai ffafriol. Mae'r ymgynghoriad yma wedi cael ei gynnal yn unol â'r cod yma.

- **Mae'n debygol y bydd staff cyfrwng Saesneg ym Mhenderyn yn colli eu swyddi. Dydy hyn ddim yn dderbyniol.**

Oherwydd bod y broses ymgynghori yn ei dyddiau cynnar, mae'r effaith ar staff yn parhau i fod yn anhysbys. Serch hynny, mae Adran Adnoddau Dynol RhCT wedi cadarnhau y byddan nhw'n trafod unrhyw bryderon gydag aelodau o staff yn unigol.

- **Fydd cael plant i fynychu dwy ysgol wahanol o fis Medi 2019 ddim yn ymarferol.**

Ar ôl ystyried hyn a phob sylw sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y cyfnod ymgynghori yma, yr argymhelliad yw bod yr elfen yma o'r cynnig ymgynghori yn cael ei diwygio fel **bydd** modd derbyn disgyblion Saesneg newydd ar ôl mis Medi 2019. Yr argymhelliad fydd newid categori Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol dwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg o fis Medi 2021. Bydd hynny'n digwydd ar yr un pryd ag agor Ysgol Gynradd newydd Hirwaun.

- **Cafodd dalgylch Penderyn ei leihau felly pam na fydd modd ei ehangu unwaith eto?**

Mae modd cadarnhau nad yw hen Gyngor Morgannwg Ganol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi newid dalgylch Penderyn.

- **Mae Ysgol Penderyn yn ddarostyngedig i gyfamod cyfyngol sy'n ymwneud a dysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg yn benodol. A fyddai modd i chi gadarnhau a oes cyfamodau ar waith yn Ysgol Penderyn?** Mae dogfennau cyfreithiol Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn wedi cael eu gwirio a does dim cyfamodau na chyfyngiadau ar y teitl sy'n ymwneud â statws cyfrwng iaith yr addysg sy'n cael ei darparu.

- **Bydd gwneud Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn yn ysgol Gymraeg yn helpu i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

- **Dydy cludiant am ddim ddim yn opsiwn i blant mor ifanc.**

Mae Rhondda Cynon Taf yn brofiadol o ran darparu cludiant diogel ar gyfer disgyblion 3 oed a hŷn, ac mae'r gwasanaeth yma'n cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant yr Ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cludo 2,292 o ddisgyblion oedran cynradd i'r ysgol, ac mae 252 ohonyn nhw yn eu blwyddyn gyntaf (3-4 oed). Mae holl gontractau yr ysgolion cynradd yn cael eu gweithredu gan yrwyr a chynorthwyrwyr i deithwyr sydd wedi'u gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae sicrhau diogelwch a lles ein disgyblion o'r pwys mwyaf i ni ar bob adeg.

- **Gwrthwynebiad i'r syniad o'r holl ddisgyblion yn cyrraedd safle'r ysgol drwy Glanant Street a Longfield Court drwy gydol y gwaith adeiladu.**

Mae'r broses ymgynghori yma'n ymwneud â chynigion i ddarparu ysgol gynradd fwy o faint ar gyfer Hirwaun a newid categori iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, ac mae'n dilyn y canllawiau statudol sydd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo a bod cais cynllunio ar gyfer ysgol newydd yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol, yna bydd ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal yn y gymuned o dan y ddeddfwriaeth berthnasol (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref). Mae hyn yn gwbl wahanol i'r broses ymgynghori bresennol.

Serch hynny, mae'r gwrthwynebiadau yma wedi'u nodi at ddibenion yr adroddiad yma.

Barn Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) ynglŷn â Manteision Cyffredinol y Cynnig.

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae gofyn bod cynigwyr yn anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Serch hynny, does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynigion o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig.

Crynodeb a Chasgliad

Y cynigydd yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ac mae'r cynnig yn ymwneud â chodi adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun a newid y statws cyfrwng iaith - i'r Gymraeg yn unig - yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o fis Medi 2021.

Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith ffafriol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi rhoi disgrifiad clir o'r cynnig a'r trefniadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae'r cynigydd wedi cyfeirio'n addas at ddata a thueddiadau cyflawniad yr ysgol, wedi rhoi gwybodaeth am gyflwr yr eiddo ac am nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd a'r nifer a all fynychu'r ysgol yn y dyfodol. Mae'r cynigydd hefyd wedi cyfeirio'n addas at adroddiadau diweddar Estyn. Mae arolygiadau wedi cael eu cynnal yn y ddwy ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r cynnig yn cydnabod y farn 'digonol', 'angen gwella', 'anfoddhaol' ac 'angen gwella ar frys' a gafodd ei rhoi yn achos Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae'n nodi cyflwr cymharol wael adeiladau Ysgol Gynradd Hirwaun.

Mae'r cynigydd wedi nodi ei resymeg dros newid statws iaith Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn i statws 'cyfrwng Cymraeg yn unig' yng ngoleuni nifer gynyddol y disgyblion sy'n mynychu ei ffrwd cyfrwng Cymraeg ac mewn perthynas â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mewn perthynas â newid y dalgylch, mae'r cynnig yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer dyrannu lle i ddisgyblion yn unol â pholisi derbyn i'r ysgol yr awdurdod. Byddai disgyblion sy'n astudio yn y ffrwd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Hirwaun heb broses ymgeisio ychwanegol.

Mae'r cynnig yn ystyried y cludiant i ddisgyblion o fewn y dalgylchoedd newydd arfaethedig yn briodol. Byddai disgyblion sy'n byw yn Nhrenant a Phen-y-waun (o fewn y dalgylch wedi'i ehangu ar gyfer Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn) sy'n dymuno cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gymwys i gael cludiant am ddim i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn. Byddai disgyblion sy'n byw ym Mhenderyn (o fewn dalgylch wedi'i ehangu Ysgol Gynradd Hirwaun) sy'n dymuno cael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg yn cael eu cludo am ddim i Ysgol Gynradd Hirwaun.

Mae'r cynnig yn ystyried y newidiadau posibl o ran staff o ganlyniad i gau'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn. Byddai'r staff o dan lefel yr Uwch Dîm Arwain yn cael cyfle i ymgeisio am swyddi newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun cyn iddyn nhw gael eu hysbysebu yn allanol, ond byddai'r swyddi yma yn cael eu neilltuo i gyn athrawon Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn yn y lle cyntaf.

Mae'r cynigydd yn nodi rhai anfanteision o ran y newidiadau arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys dealltwriaeth y rhieni y gall ysgol lai o faint fod yn fwy addas ar gyfer anghenion eu plant, a'r pellter teithio hwy ar gyfer rhai disgyblion mewn rhai cymunedau. Mae'r cynigydd wedi esmwytho'r sefyllfa yma (o ran y pellter teithio) drwy ddarparu cludiant am ddim ar

gyfer y disgyblion a fydd yn cael eu heffeithio. Mae'r cynnig yn cynnwys ystyried y newidiadau demograffig yn yr ardal yn y dyfodol agos, gan gynnwys datblygiadau tai a datblygiad yn y dyfodol ar safle hen Lofa'r Twr yn Hirwaun. Mae'r rhain yn debygol o arwain at gynnydd yn y galw yn y ddwy ysgol.

Mae'r cynigydd wedi ystyried opsiynau amgen, gan gynnwys cynnal statws iaith cyfredol y ddwy ysgol, a chodi adeiladau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn lle'r hen rai. Serch hynny, daeth i'r casgliad na fyddai'r rhain yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, y newidiadau demograffig lleol na'r manteision posibl i'r safon a allai ddarpariaeth uniaith yn y ddwy ysgol ddod â hi.

Mae'r cynnig yn cynnwys ystyried y risg o amharu ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'r cynigydd yn nodi y bydd y risgiau yma'n 'cael eu lliniaru gan y trefniadau rheoli prosiect manwl a thrwyadl a fydd yn cael eu rhoi yn eu lle', er nad yw'n manylu ar y trefniadau yma.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynnig yn nodi'r manteision canfyddedig. Ar gyfer yr ysgol cyfrwng Saesneg yn Hirwaun, mae'r manteision yn cynnwys amgylchedd gwell a mwy o faint mewn ysgol bwrpasol, fodern; dosbarthiadau o blant o'r un oedran (yn hytrach nag oedran cymysg) a chyfleoedd gwell i ddisgyblion ac athrawon oherwydd y cynnydd mewn graddfa. Ar gyfer Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn, mae'r manteision yn cynnwys trochi llwyr yn yr iaith Gymraeg ar gyfer yr holl ddisgyblion yn yr ysgol, creu 'màs critigol' o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg, rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg a gwell recriwtio a chadw staff.

Mae'r manteision posibl sydd wedi'u nodi gan y cynigydd yn ymddangos yn asesiad rhesymol o ganlyniadau'r newidiadau arfaethedig.

6. Asesiad o'r Ymgynghoriad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a gafodd eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae asesiad arall o'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori wedi cael ei gynnal. Mae'r cynigion wedi cael eu hailystyried ynghyd ag effaith y cynigion ar y safonau addysg, y gymuned a'r trefniadau cludiant.

Yn dilyn yr ailasesiad yma, dydy'r cynigion yma ddim yn cael eu hystyried yn gwbl addas, ac felly, mae'n cael ei ystyried ei bod hi'n briodol diwygio'r cynigion cyn eu cyflwyno. Yr argymhelliad yw bod elfen o'r cynnig ymgynghori yn cael ei diwygio fel **bydd** modd derbyn disgyblion Saesneg newydd i Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn ar ôl mis Medi 2019. Yr argymhelliad diwygiedig fydd newid categori Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol dwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg o fis Medi 2021. Bydd hynny'n digwydd ar yr un pryd ag agor Ysgol Gynradd newydd Hirwaun.

Argymhelliad yr adroddiad yma yw adeiladu ysgol newydd sbon ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun, newid categori Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn o ysgol dwy iaith i ysgol cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2021, a pharhau i ganiatáu i blant gael eu derbyn i'r ffrwd cyfrwng Saesneg tan i gategori Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn newid o fod yn ysgol dwy iaith i fod yn ysgol Gymraeg.

7. Casgliad

Yr argymhelliad yw y dylai'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi, ac ar yr adeg briodol, y dylai hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi gyda'r diwygiad sydd wedi'i argymhell fel sydd wedi'i nodi uchod, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.